

**PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD****BWRDD Y LLYWODRAETHWYR:** Dydd MAWRTH 9 HYDREF 2018**COFNODION**

**Yn bresennol:** Y Farwnes Finlay o Landaf (Cadeirydd), Yr Athro C.C.Aitchison (Llywydd ac Is-Ganghellor), Ms.J.Berry, Mr.I.Gardiner, Mrs.S.Goodson, Ms.S.Hay, Mr.U.Hussain, Dr.S.Jackson, Dr.M.James, Dr.K.Nnoaham, Mr. J. Nottingham, Dr.K. Thirlaway a Dr.C.Turner.

**Presenoldeb:** Ms. J. Boddington (PVC Ymgysylltu â Myfyrwyr), M. J. Cavani (Cyfarwyddwr Marchnata a Chysylltiadau Allanol), yr Athro S. Hanton (PVC Ymchwil ac Arloesi), Mr. D. Llewellyn (Cyfarwyddwr Cyllid), Yr Athro J. Platts (Deon Ysgol Technolegau Caerdydd, Yr Athro L. Robinson (PVC Cyncoed a Deon Gweithredol Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd) a Mr.R.D.G.Walters (Ysgrifennydd a Cherc i'r Llywodraethwyr).

Cyn dechrau ar y busnes ffurfiol estynnwyd croeso i llora Finlay, Barwnes Finlay o Landaf, Cadeirydd newydd Bwrdd y Llywodraethwyr a llywodraethwr annibynnol. Estynnwyd croeso hefyd i Dr Katie Thirlaway (Cynrychiolydd y Bwrdd Academaidd) a Mr Jon Nottingham (Is-Lywydd Undeb y Myfyrwyr ar gyfer 2018/19).

Cytunwyd ar rannu'r busnes yn rhannau A a B.

**Rhan A****1715. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Ms. N. Amery, Mr. G. Davies a Mr. G. Hardacre.

**1716. Penodi Cynrychiolydd y Bwrdd Academaidd**

Ar ddechrau'r busnes ffurfiol, cytunwyd i roi ystyriaeth gynnar i benodi Cynrychiolydd y Bwrdd Academaidd ar Fwrdd y Llywodraethwyr ar gyfer y cyfnod tair blynedd 2018/19 hyd 2020/21. Cymeradwyodd y cyfarfod argymhelliad y Bwrdd Academaidd fod Dr. Katie Thirlaway, Dirprwy Ddeon Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd, yn cael ei phenodi fel cynrychiolydd y Bwrdd Academaidd ar Fwrdd y Llywodraethwyr ac yn aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethiant.

Cofnodir penodiad arall i Fwrdd y Llywodraethwyr, sef Mr. Nick Capaldi, yng nghofnod 1728 isod.

**Penderfynwyd** y byddai Dr. Katie Thirlaway yn cael ei phenodi fel Cynrychiolydd y Bwrdd Academaidd ar gyfer y tymor o dair blynedd 2018/19 hyd 2020/21 ac fel aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethiant.

**1717 Datganiadau o Wrthdaro Buddiannau**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o wrthdaro buddiannau ariannol ac anariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol.

#### **1718. Cofnodion Bwrdd y Llywodraethwyr: 3 Gorffennaf 2018**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2018 fel cofnod cywir ac fe'u llofnodwyd. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

#### **1719. Eitemau Sefydlog:**

##### **.1 Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei hadroddiad ysgrifenedig cyfnodol cyntaf i Fwrdd y Llywodraethwyr.

Nododd yr adroddiad gyfarfodydd a digwyddiadau a fynychwyd ers penodi'r Cadeirydd ar 1 Awst 2018 a'r camau a gymerwyd gan y Cadeirydd ar 24 Awst 2018 i awdurdodi'r Is-Ganghellor i lofnodi'r cytundeb diswyddo gyda'r cyn PVC (Rhyngwladol) ar ran y Brifysgol yn weithredol o 1 Medi 2018

Cyflwynwyd crynodeb o Ddiwrnod Cwrdd i Ffwrdd y Llywodraethwyr a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2018 lle y trafodwyd *inter alia*:

newidiadau i'r calendr o gyfarfodydd o 1 Ionawr 2019;

y bwriad i sefydlu mecanwaith ar gyfer cysylltiadau parhaus i bob llywodraethwr unigol gydag Ysgolion ac Unedau;

y bwriad, fel sy'n arferol, i ddarparu rhaglen hyfforddiant sefydlu ffurfiol ar gyfer llywodraethwyr newydd i ddod i rym ar ôl penodiadau arfaethedig dau llywodraethwr arall ar 27 Tachwedd 2018;

y bwriad i gefnogi'r rhaglen sefydlu gyda threfniadau cyfeillio unigol ar gyfer llywodraethwyr newydd;

y cais i ddefnyddio graffiau lle y bo'n briodol ar gyfer cyflwyno data rhifiadol;

yn dilyn y model a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Adnoddau, y cynnig i rannu meysydd busnes rhwng llywodraethwyr yn unol â sgiliau a phrofiad;

cadarnhad o ymlyniad llywodraethwyr unigol at egwyddorion Nolan.

Darparwyd manylion am gyfarfodydd arfaethedig Cadeiryddion Prifysgolion Cymru yn ystod prynhawn 9 Tachwedd, a fyddai'n cael ei ragflaenu gan gyfarfod bore y diwrnod hwnnw gydag Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg, ac am Gyfarfod Llawn yr hydref Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion 2018 i'w gynnal yn Llundain ar 11 a 12 Hydref.

Adroddwyd bod cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Pherfformio a drefnwyd ar gyfer 25 Medi 2018 wedi'i ganslo oherwydd prinder busnes; trefnwyd bod y Pwyllgor yn cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, 13 Tachwedd 2018.

Nododd yr adroddiad ysgrifenedig fanylion cryno adroddiad y Comisiwn Addysg Uwch *Staying Ahead: are international students going down under?* ac adroddiad y Grŵp Seneddol Holl-bleidiol ar Hunanladdiad ac Atal Hunan-niwed, a oedd yn gweithio i godi

ymwybyddiaeth o fewn y Senedd ac yn annog trafodaeth a dadleuon ar yr holl faterion yn ymwneud ag atal hunanladdiad a hunan-niwed.

**Penderfynwyd** y dylid derbyn yr adroddiad

.2 **Adroddiad yr Is-Ganghellor**

Roedd adroddiad cyfnodol cyntaf yr Is-Ganghellor ar gyfer 2018/19 yn cynnwys:

Adolygiad o 2017/18;

Blaenoriaethau strategol ar gyfer 2018/19;

datblygiadau polisi diweddar a chyfredol yn y sector (gan gynnwys heriau'r sector, mentrau gan Universities UK, data'r sector ar hunanladdiad ymysg myfyrwyr a digwyddiadau o gamymddwyn rhywiol staff-i-fyfyrwyr, a mentrau gan Brifysgolion Cymru: Astudio yng Nghymru),

Penodiadau arweinyddiaeth weithredol a newidiadau yn y staff;

newid strwythurol yn unol â'r Cynllun Strategol;

Adolygiad o Wasanaethau Proffesiynol - gweithredu argymhellion, trafodaethau dilynol gyda'r Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol a chynigion ar gyfer adolygu Ysgrifenyddiaeth y Brifysgol a'r Swyddfa Rhyngwladol a Phartneriaethau (IPO) – nodwyd bod Yr Athro Leigh Robinson, PVC Cyncoed a Deon Gweithredol Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd, wedi cymryd cyfrifoldeb dros dro ar gyfer yr IPO ac am adolygu gweithgarwch TNE a diwylliant a gweithrediad trefniadau partneriaethau tramor y Brifysgol;

gweithgarwch ymgysylltu allanol.

Ar argymhelliad llywodraethwr annibynnol cytunwyd y byddai trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer sesiwn briffio llywodraethwyr yn ddiweddarach yn ystod tymor yr hydref 2018 i gael cyflwyniadau a thrafodaethau manylach ar nifer o eitemau gan gynnwys yr Arolwg Iechyd a Llesiant Staff (a oedd wedi cyflawni'r nifer uchaf erioed o gyfranogwyr), arolwg NSS, tablau cynghreiriau a'r Adolygiad Gwasanaethau Proffesiynol

**Penderfynwyd** y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

.3 **Adroddiad Llywydd Undeb y Myfyrwyr**

Cyflwynodd Llywydd Undeb y Myfyrwyr ei adroddiad cyntaf a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch Undeb y Myfyrwyr ers y cyfarfod diwethaf.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion gweithgarwch recriwtio a hyfforddi llwyddiannus ar gyfer Cynrychiolwyr Ysgolion a swyddogion rhan-amser ar gyfer 2018-2019 a recriwtio Cydlynedd Bywyd Myfyrwyr i gynorthwyo myfyrwyr i gael ymdeimlad o berthyn ac ymgysylltu ag Undeb y Myfyrwyr a'r profiad myfyrwyr ehangach. Awgrymwyd y gallai'r Cydlynedd Bywyd Myfyrwyr fod yn gyswllt defnyddiol rhwng y corff llywodraethu a myfyrwyr unigol, gan ddangos bod llywodraethwyr yn dymuno cefnogi myfyrwyr yn unigol ac ar y cyd a gwella profiad y myfyrwyr.

Darparwyd manylion hefyd am weithgarwch yn ystod yr Wythnos Sefydlu, a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos yn dechrau 17 Medi 2018, a chynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

#### **1720. Alldro drafft 2017/18: Adolygiad Terfynol**

Darparodd adroddiad ysgrifenedig yr adroddiad alldro terfynol ar gyfer 2017/2018 yn seiliedig ar y canlyniadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a oedd yn dal i fod yn amodol ar gadarnhad gan archwilwyr allanol y Brifysgol. Cyflwynodd atodiadau grynodeb o'r Cyfrif Incwm a Gwariant a manylion cryno y llif arian, y Fantolen a'r rhaglen gyfalaf.

Dangosodd yr alldro gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn y darparwyd arian parod drwy weithrediadau o £9.4m, gwarged cyfrifyddu o £3.4m a gwariant staff fel % o drosiant o 58.0% (heb gynnwys costau diswyddo o £5.3m).

Nodwyd bod y £1.3m gwelliant mewn cynhyrchu arian parod yn ganlyniad i dri phrif ffactor. Cyfrifwyd am oddeutu £250k gan gyfuniad o welliannau mewn perfformiad mewn perthynas â ffrydiau incwm canolog, gan gynnwys ffioedd addysgu, grantiau canolog, gweithgarwch ymchwil ac arloesi a gweithgarwch gwasanaethau masnachol. Cyfrifwyd am £220k pellach gan danwariant net yn erbyn dyraniadau Ysgolion ac Adrannau. Roedd y balans o oddeutu £870k yn ganlyniad cynnydd sylweddol yn y swm a'r cyfraniad gan weithgarwch TNE. Adroddwyd bod y tri ffactor hyn, ynghyd â gostyngiad o £1m yn y taliadau diffyg pensiwn anariannol, wedi darparu'r gwelliant o £2.3m yn y gwarged cyfrifyddu.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

#### **1721. Diweddariad ar Recriwtio Myfyrwyr: 2018.**

Cyflwynodd adroddiad ysgrifenedig grynodeb o recriwtio myfyrwyr ar gyfer 2018/19. Adroddwyd bod y Brifysgol wedi perfformio'n foddhaol mewn perthynas â recriwtio myfyrwyr israddedig amser llawn Cartref/UE er gwaethaf gostyngiad o 6.3% mewn ceisiadau i raglenni israddedig amser llawn drwy ostyngiad demograffig a chystadleuaeth leol fwy cadarn. Nodwyd bod polisi cynigion mwy ymosodol wedi adfer y nifer posibl o fyfyrwyr i lefel debyg i'r hyn a welwyd yn y flwyddyn flaenorol gyda chynigion i fyny gan 4.2%. O ganlyniad, roedd yn achosion o dderbyn ceisiadau yn y prif gylch cynigion ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Rhagwelwyd y byddai cynigion a dderbyniwyd trwy glirio yn gorffen tua 100 o fyfyrwyr i lawr ar y flwyddyn flaenorol.

Darparwyd manylion ar y disgwyliadau cyfredol o ran niferoedd TAR, ceisiadau ôl-raddedig a recriwtio o dramor.

Pwysleisiwyd bod yn rhaid i niferoedd targed fod yn realistig ac yn gyraeddadwy, y dylid cymryd gofal i amddiffyn y lefelau pwyntiau mynediad tariff a bod cyflwyno rhaglenni newydd yn hanfodol er mwyn cyflawni rhagamcanion niferoedd myfyrwyr. Tynnwyd sylw at yr heriau wrth recriwtio o ganlyniad i gyflwr presennol rhai rhannau o'r ystâd. Nododd y cyfarfod y gofynion i leihau'r ddibyniaeth ar glirio, cynyddu capasiti i adeiladu'r brand ac ehangu atyniad y Brifysgol i grwpiau a dan-gynrychiolir a'r rhai y byddai angen cymorth ychwanegol arnynt (gan gynnwys rhieni sengl ac ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal).

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r adroddiad

## **1722. Datblygiadau Rhaglenni Newydd**

Nododd adroddiad ysgrifenedig uchelgais y Brifysgol i gynyddu poblogaeth myfyrwyr Caerdydd o 10,101 yn 2016-17 i 14,483 erbyn 2022/23, gan archwilio'r rhesymau dros y diffyg cynnydd mewn recriwtio dros y blynyddoedd diwethaf a chyflwyno cynlluniau ar gyfer rhaglenni newydd yn y blynyddoedd 2018/19, 2019/20 a 2020/21.

Rhodddwyd sicrwydd y byddai'r rhaglenni newydd yn destun adolygiad bob blwyddyn ac yr ystyrir cau rhaglenni a oedd wedi methu â recriwtio a chadw ar lefelau priodol.

**Penderfynwyd** y dylid derbyn yr adroddiad.

## **1723. Un Met Caerdydd: Diweddariad ar Ysgol Technolegau Caerdydd**

Cyflwynodd papur briffio grynodedb o'r sefyllfa bresennol o ran datblygu Ysgol Technolegau newydd Caerdydd (CST). Roedd y portffolio o raglenni sy'n ffurfio cynhyrchydd incwm allweddol yr ysgol yn ganolog i'r datblygiad hwn.

Darparodd y papur naratif cryno yn crynhoi datblygu'r prosiect CST, y sefyllfa bresennol o ran datblygiad y Cei Canolog a chynnydd mewn materion yn ymwneud â phortffolio, adnoddau, marchnata a recriwtio. Amlinellodd y papur yr anghenion uniongyrchol ar gyfer y prosiect datblygu ysgol cyffredinol ac archwiliwyd materion yn ymwneud â'r galw gan fyfyrwyr, angen gan gyflogwyr a'r adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu a chyflwyno'r rhaglenni newydd.

Nododd y cyfarfod fod angen cyflymu'r broses ar gyfer penodi staff allweddol, i gytuno ar y defnydd gorau o adnoddau staff, i ganfod llety dros dro posibl ac i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan brentisiaethau gradd.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r adroddiad a'r sefyllfa bresennol o ran datblygu'r Ysgol newydd

## **1724. Adolygiad Cryno o Berfformiad Tablau Cynghrair Prifysgolion 2017/18**

Darparodd adroddiad ysgrifenedig ddadansoddiad o'r graddau tablau cynghrair a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn academaidd 2017/18. Archwiliodd yr adroddiad y canlyniadau, y rhesymau y tu ôl i'r perfformiad, safleoedd a newidiadau a'r perfformiadau cymharol ar draws sectorau Cymru a'r DU. Er y rhodddwyd pwyslais ar y tablau cynghrair DU mawr, rhodddwyd ystyriaeth hefyd i safleoedd blynyddol gan grwpiau gweithredu amgylcheddol, arolygon myfyrwyr preifat a chynnydd tuag at restru yn Safleoedd Prifysgolion y Byd.

Nodwyd bod amseriad pob cyhoeddiad yn pennu nad oedd setiau data sylfaenol y safleoedd yn gyson. Defnyddiodd The Times Guide, a gyhoeddwyd ym mis Medi, ddata Boddhad Myfyrwyr NSS o 2018 a data Cyflogadwyedd DLHE o 2016/17. Cyhoeddwyd y canllawiau Complete University a'r Guardian yn gynharach yn y flwyddyn ac felly defnyddiwyd data NSS o 2017 a data DLHE o 2015/16.

Nodwyd ar ôl cyfnod o welliant cyson, yn 2018 gwelwyd gostyngiad yn y safleoedd yn yr holl dablau. Ystyriodd y cyfarfod y rhesymau dros y newidiadau yn 2018, gan nodi'r anghysondebau mewn methodolegau a'r rhesymau dros safle Met Caerdydd yn gyffredinol, a nododd y safleoedd cyffredinol is ar gyfer y sector ôl-92 o'i gymharu â'r sector cyn-92. Nododd

y cyfarfod y meysydd a nodwyd yn yr adroddiad lle y byddai angen i'r Brifysgol wella er mwyn ennill statws 50 Prifysgol uchaf a'r bwriad i wella capasiti a gallu o ran casglu a dadansoddi data.

**Penderfynwyd** y dylid derbyn yr adroddiad.

#### **1725. Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr 2018**

Darparodd adroddiad ysgrifenedig drosolwg o'r adborth o'r arolwg myfyrwyr ar draws y flwyddyn academaidd 2017/18, gyda phwyslais penodol ar berfformiad y Brifysgol yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (NSS) 2018. Nododd yr adroddiad berfformiad a adroddwyd a nododd gyfleoedd gwella parhaus a newydd i wella canlyniadau ar gyfer pob blwyddyn, gyda phwyslais arbennig ar fynd i'r afael â materion cyn NSS 2019. Cytunwyd y byddai gweithgarwch ychwanegol yn canolbwyntio ar fyfyrwyr i annog cyfranogiad yn cael ei gyfeirio at fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn.

I grynhoi, roedd y Brifysgol weld gweld gostyngiad bach mewn Boddhad Cyffredinol i 83% (o 84%) a gostyngiad, er heb fod yn arwyddocaol, ar draws pob maes thematig.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd CCAUC wedi ysgrifennu at y Brifysgol i drafod canlyniadau'r NSS ac wedi gofyn am ymateb a chynlluniau gweithredu ar gyfer unrhyw feysydd pwnc gyda llai na 70% o foddhad cyffredinol am ddwy flynedd yn olynol. Roedd yr ymateb hwn wedi'i ddarparu ar 18 Medi 2018.

**Penderfynwyd** y dylid derbyn yr adroddiad a nodwyd y camau gweithredu a gynlluniwyd.

#### **1726. Arolwg Iechyd a Llesiant 2018: Canlyniadau**

Darparodd adroddiad ysgrifenedig grynodedb o ganlyniadau dadansoddiad o'r Arolwg Iechyd a Llesiant Staff 2018 a gynhaliwyd ym mis Mai 2018. Roedd hyn yn cynnwys archwilio elfen Safonau Rheoli Straen y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE) yr arolwg iechyd a llesiant staff 2018. O'u cymharu â chanlyniadau o 2016, awgrymodd y canlyniadau gwmp gyffredinol ar draws y Brifysgol yn yr agweddau hynny ar reoli sefydliadol y gwyddys eu bod yn amlwg o ran straen sy'n gysylltiedig â gwaith. Fodd bynnag, roedd canlyniadau o'r elfen hon o'r arolwg i raddau helaeth yn unol â chanlyniadau o arolygon staff a gynhaliwyd yn ystod 2010, 2012 a 2014. Nododd yr arolwg hefyd ddirywiad ym marn y staff am effeithiolrwydd cyfathrebu yn y Brifysgol a theimladau o gael eu gwerthfawrogi.

Cadarnhawyd y byddai adroddiad llawn ar y canfyddiadau o Arolwg Iechyd a Llesiant Staff 2018 yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn nhymer yr hydref 2018, a'i gyflwyno i'r llywodraethwyr cyn gynted ag yr oedd ar gael. Byddai gweithgor yn cael ei gynnull i ddatblygu cynllun gweithredu corfforaethol a byddai dadansoddiad mwy manwl o ganlyniadau'r arolwg wedi'u rhannu yn ôl Ysgol ac Uned yn cael ei roi i'r Deoniaid, Cyfarwyddwyr a Phenaeithaid penodol er mwyn galluogi ystyried canlyniadau'r arolwg a datblygu camau gweithredu ar lefel leol sy'n gymesur ag ymatebion y gorfforaethol gyfan.

**Penderfynwyd:**

- .1 y dylid nodi'r adroddiad;
- .2 y dylid cyflwyno canlyniadau'r arolwg i lywodraethwyr ar y cyfle cyntaf.



## 1727. Cymeradwyo ac Adolygu Polisiâu a Strategaethau

### .1 Cymeradwyo'r Strategaeth pobl 2018/18 – 2022/23

Cafodd y cyfarfod iteriad pellach o'r Strategaeth Pobl 2017/18 – 2022/23 (y strategaeth Adnoddau Dynol yn flaenorol) a gymeradwywyd mewn egwyddor gan Fwrdd y Llywodraethwyr ar 3 Gorffennaf 2018 yn amodol ar ddatblygu pellach. Yn dilyn adborth wedi cyflwyno drafft cyntaf o Strategaeth Adnoddau Dynol i'r Bwrdd Rheoli ar 5 Mehefin 2018, ailenwyd y Strategaeth yn y Strategaeth Pobl ac fe'i ailgynlluniwyd i fod yn fwy uchelgeisiol ac eang ei chwmpas. Wedi hynny cyflwynwyd y Strategaeth Pobl ddrafft i'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Pherfformiad ar 19 Mehefin 2018 a'i gymeradwyo yn y Bwrdd Rheoli ar 4 Medi 2018.

Cafodd ganlyniadau asesiad effaith ar gydraddoldeb cadarnhaol eu hadrodd i'r corff llywodraethu yn mis Gorffennaf 2018.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo'r Strategaeth Pobl ar gyfer y cyfnod 2018/19 hyd 2022/23.

### .2 Adolygiad o'r Polisi Diswyddo Uwch Staff

Cyflwynodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gynigion ar gyfer diwygio'r Polisi Diswyddo Uwch Staff i adlewyrchu profiad gweithredu'r Polisi yn y cyfnod rhwng haf 2017 hyd yma ac yn fwyaf arwyddocaol i ymestyn ei chwmpas i gynnwys yr holl uwch staff. Ystyriodd y fersiwn ddiwygiedig arfaethedig y cyngor a gafwyd gan gynghorwyr cyfreithiol y Brifysgol a chafodd sêl bendith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2018. Yn benodol, fel y dywedwyd wrth Fwrdd y Llywodraethwyr ar 27 Mawrth 2018 (gweler cofnod 1690), roedd y Polisi diwygiedig yn cyfyngu cytundebau i flwyddyn o gyflog (heb atebolrwydd penodol i Fwrdd y Llywodraethwyr), ac yn ymestyn ei chwmpas i gynnwys staff ar Lefel 3.

Rhodddwyd sicrwydd nad oedd asesiad o effaith ar gydraddoldeb wedi nodi unrhyw oblygiadau andwyol yn deillio o'r newidiadau i'r polisi ar gyfer unrhyw un o'r nodweddion personol.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo cynigion ar gyfer fersiwn ddiwygiedig o'r Polisi Diswyddo Uwch Staff.

### .3 Polisi bod yn Agored - adolygiad

Cyflwynwyd y Polisi bod yn Agored ar gyfer adolygiad cyfnodol. Cafwyd mân newidiadau yn unig i'r Polisi a ddiwygiwyd ddiwethaf yn ystod 2012/13 ac a gymeradwywyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr ar 26 Mawrth 2013. Yn dilyn adolygiad o sut yr oedd y polisi yn effeithio ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig, gwnaed newidiadau yn 2012/13 i adlewyrchu'r gofyniad bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau hygyrch.

Roedd y polisi ddrafft ddiwygiedig wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli ar 2 Hydref 2018 ac wedi bod yn destun asesiad o effaith ar gydraddoldeb.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo'r Polisi bod yn Agored diwygiedig.



## **1728. Materion Llywodraethiant**

Cyflwynodd adroddiad ysgrifenedig drosolwg cyfnodol o faterion llywodraethiant presennol, gwnaeth argymhellion ar benodi dau lywodraethwr newydd (mae cofnod 1716 uchod yn cofnodi penodiad Dr Katie Thirlaway fel cynrychiolydd y Bwrdd Academiaidd ar gyfer y cyfnod tair blynedd 2018 – 2021 ar unwaith) ac ar ddiwygiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, a chyflwynodd adroddiad cryno agored ar fusnes cyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar 17 Medi 2018 (gweler cofnod 1732 isod).

Yn unol ag argymhelliad a wnaed gan aelodau'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethiant, roedd y corff llywodraethu yn falch i gytuno i benodi Mr Nick Capaldi, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru ers 2008, fel llywodraethwr annibynnol ar gyfer cyfnod cychwynnol o dair blynedd yn dechrau ar unwaith. Yn ogystal, penodwyd Mr Capaldi fel aelod o'r Pwyllgor Adnoddau.

Yn ychwanegol at yr adroddiad oedd hysbysiad o dderbyn yn ddiweddar Ganllawiau Advance HE i gefnogi sefydlu llywodraethwyr newydd. Darparwyd copïau o'r canllawiau er gwybodaeth i bob llywodraethwr.

Cytunwyd y dylid cysylltu ag Advance HE o ran hwyluso'r adolygiad llawn nesaf o effeithiolrwydd Bwrdd y Llywodraethwyr i ddechrau yn ystod tymor y gwanwyn 2019.

### **Penderfynwyd:**

- .1 y dylid nodi'r adroddiad;
- .2 yn ogystal â phenodi Dr Katie Thirlaway fel Cynrychiolydd y Bwrdd Academiaidd, byddai Mr Nick Capaldi yn cael ei benodi'n llywodraethwr annibynnol am y cyfnod tair blynedd 2018 – 2021 ar unwaith; ac fel aelod o'r Pwyllgor Adnoddau;
- .3 dylid cymeradwyo cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

## **1729. Unrhyw fusnes Arall**

- .1 Busnes Cyfyngedig

**Penderfynwyd** bod yr eitemau canlynol yn cadw statws cyfyngedig:

Adolygiad Terfynol Alldro  
Recriwtio Myfyrwyr  
Diweddariad Un Met Caerdydd  
Canlyniadau NSS

## **Rhan B**

Ni thrafodwyd papurau o dan Rhan B yn y cyfarfod a chymerwyd bod unrhyw argymhellion ynddynt wedi'u cymeradwyo.

## **1730. Adroddiad blynyddol y Clerc: 2017/18**

Crynhodd pymthegfed Adroddiad Blynyddol y Clerc, ar gyfer y flwyddyn 2017/18, gyfansoddiad, strwythur a gweithrediad y Corff Llywodraethu a'i gydymffurfiaeth â'r Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu a rhai gofynion deddfwriaethol yn ystod y sesiwn fusnes ddiwethaf. Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o gyfrifoldebau'r corff llywodraethu ynghyd â

manylion am y weithdrefn gymeradwy ar gyfer penodi llywodraethwyr. Hefyd, cyflwynodd yr adroddiad grynodedb agored o waith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystod 2017/18.

**Penderfynwyd** y dylid derbyn yr Adroddiad Blynyddol.

## **BUSNES CYFYNGEDIG**

**Llywodraethwyr annibynnol a llywodraethwyr nad ydynt yn staff/myfyrwyr cyfetholedig mewn sesiwn breifat (gyda'r Ysgrifennydd a'r Clerc yn bresennol).**

### **1731. Cofnodion cyfyngedig y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2018**

Cyflwynwyd cofnodion cyfyngedig y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2018 i'w cymeradwyo

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo a llofnodi'r cofnodion cyfyngedig.

### **1732. Adroddiad ar fusnes cyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar 17 Medi 2018**

Gwnaeth adroddiad llafar ymdrin â busnes cyfarfod mwyaf diweddar y Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Roedd y Pwyllgor wedi:

adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor (fel y'u cyflwynwyd i'r cyfarfod hwn am gymeradwyaeth – gweler cofnod 1728 uchod);

adolygu perfformiad uwch aelodau o staff yn ystod 2017/18 a phenderfynu ar gyflogau ar gyfer tri Pro Is-ganghellor a'r Ysgrifennydd a'r Clerc ar gyfer 2018/19 – gohiriwyd y penderfyniad ar gyflogau 2018/19 ar gyfer yr Is-Ganghellor a'r Dirprwy Is-Ganghellor i'r cyfarfod nesaf i ganiatáu ar gyfer cwblhau gwerthusiadau perfformiad blynyddol;

cymeradwyo fframwaith ar gyfer y Datganiad Cydnabyddiaeth Uwch Staff Blynyddol i'w gyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Statudol erbyn diwedd 2018;

cymeradwyo diwygiadau i'r Polisi Diswyddo Staff Uwch (gweler cofnod 1727.2 uchod).

Yn ogystal â derbyn y cofnodion drafft, nododd y cyfarfod preifat benderfyniad cyflogau ar gyfer 2018/19 ar gyfer y tri Pro Is-ganghellor a'r Ysgrifennydd a'r Clerc a thrafodwyd a nodwyd trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb salwch hirdymor y Dirprwy Is-Ganghellor.

Cofnodwyd diolch y cyfarfod am waith Is-gadeirydd y Bwrdd mewn perthynas â datrys cytundebau diswyddo diweddar.

Parhaodd y trafodaethau i gytuno disgrifiad swydd ar gyfer swydd Lefel 2 newydd Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc i'r Llywodraethwyr a fyddai'n rhoi i'r deiliad swydd ddwy linell adrodd, fel Ysgrifennydd y Brifysgol i'r Is-Ganghellor ac fel Clerc i'r Llywodraethwyr i'r Cadeirydd.